


Y cyfaill diymhongar

*Teyrnged i'r Parchedig Thomas Roberts gan y Parch Dafydd H Owen
a fu'n gyfaill ac yn gydweithiwr iddo*

'R oedd Tom yn enedigol o Benrhyndeudraeth ac fe'i hordeiniwyd i'r weinidogaeth, ynghyd â deg o ymgeiswyr eraill, yn Llundain yn 1953. Bu'n weinidog yn Acrefair, ac yng ngofalaethau, Talybont, Llanddewibrefi ac Aberteifi cyn ei benodi yn Ysgrifennydd y Gronfa Gynnal a'r Bwrdd Pensiynau yn y Swyddfa Gyfundebol yng Nghaerdydd.

Fe wasanaethodd ymhob cylch yn ddiarbed gydag ymroddiad llwyr. 'Roedd ei bregethau effeithiol yn cyfannu ei wybodaeth o'r Ysgrythur, ffrwyth ei ddarllen a'i fyfyrddod, ei gonsyrn dwfn am bobl a'i ddiddordeb mewn materion cyfoes. 'Roedd ei wasanaeth bugeiliol, ffyddlon, mewn amser ac allan o amser, yn dangos ei gariad a'i gydymdeimlad tuag at bobl wrth iddynt wynebu amrywiol amgylchiadau bywyd beunyddiol.

Yn y Swyddfa yng Nghaerdydd amlygodd ei ddoniau gweinyddol a'i barodrwydd i gydweithio'n agos a hapus gyda phob un ohonom. Cawsom Tom yn gyfaill agos, yn barod i gynorthwyo a'i gyngor yn bwylllog a doeth. Manteisiodd ar bob cyfle drwy gyfrwng ei ddyletswyddau newydd i gefnogi ein gweinidogion ymhob agwedd o'u gwaith. Wrth iddo wneud popeth bosibl i godi cydnabyddiaeth gweinidogion ac i sicrhau pensiynau teilwng iddynt hwy a'u gweddwon roedd



**“os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw,
ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw.
P'run bynnag ai byw ai marw ydym, eiddo'r
Arglwydd ydym.”**

yn rhaid iddo ystyried y galw ariannol cynyddol ar ein haelodau. Gwnaeth hynny gyda sensitifrwydd a thegwch oedd yn nodweddiadol o'i gyfraniad nodedig i'r Cyfundeb. Sail y cyfan a wnaeth oedd ei ffydd gadarn, ei ymateb i Arglwyddiaeth Crist a'i gariad tuag ato.

'Roedd Tom yn berson diymhongar. Nid oedd yn chwenychu unrhyw sylw na ffws personol. Y dydd olaf, cyn ei ymddeoliad, 'roeddem i gyd yn y swyddfa wedi paratoi "digwyddiad" i ddiolch a dymuno'n dda iddo. Mae'n rhaid ei fod wedi synhwyro bod rhywbeth wedi'i drefnu. Pan aethom i'w swyddfa roedd yr ystafell yn wag a phopeth yn drefnus a "gorffenedig" ar gyfer ei olynydd. Doedd neb wedi sylwi ei fod wedi gadael yn gynnar. Tro cyntaf iddo wneud hynny! Yn gwbl nodweddiadol ohono

roedd wedi trefnu ei angladd yn breifat i'w deulu.

Cydymdeimlwn yn fawr a'i briod Gwen. Bu yn gefn iddo drwy gydol ei weinidogaeth ac yn fawr ei gofal amdano yn ystod cyfnod hir ei waeledd. Yn ogystal estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll; Ceredig a Hannah, Dewi a Debbie, Mererid a Athenasios a'i wyth wŷr ac wyresau. Prin yr aeth sgwrs heibio heb iddo sôn amdanynt gydag anwylddeb, balchder a diolchgarwch.

Gŵr gyda'r puraf o galon

*Teyrnged a gyflwynwyd yng ngwasanaeth angladd y Parch Huw Jones, yn y Bala,
gan Parch Harri Parri a fu'n gyfaill agos iddo am flynyddoedd lawer.*

Un o'r "gweision gwahanol" oedd o. Er mai ei amcan fyddai cyflawni'r arferol disgwyliedig; ei athrylith a'i gyrrai i gyflawni pethau'n gofiadwy o wahanol – a dylanwadol. Eto, yn y pumdegau cyrhaeddodd i Gymdeithasfa yng Nghaernarfon heb sgidiau duon a'r Parch R. R. Hughes, Niwbwrch – cofiannydd "Brynsiencyn" – yn ei geryddu, yn Saesneg: "Brown shoes, Mr Jones. To the Sasiwn!"

Fel y *mute inglorious Milton* yng ngalargan Thomas Gray, un na chafodd gyfle oedd o – i ddechrau. Yn un o dri ar ddeg o blant, a'i dad yn gweini. Bu'n rhaid iddo adael yr ysgol yn dair ar ddeg i fod yn was ffarm ar dir agored gogledd Môn. Eto, roedd o i ennill tair gradd – nid y byddai fyth yn ysgwyd y gynffon honno – ond mae'n tanlinellu ei alluoedd a maint ei ymdrech.

Fel gyda Thriawd y Coleg ac eraill, fel un o sêr y *Noson Lawen* ar y radio yn y pedwardegau y daeth Huw i sylw'r genedl gyntaf ac

yntau ym Mangor yn fyfyrwr am y weinidogaeth. Doedd y rhialtwch hwnnw, yn ôl Huw, ddim yn union at ddant ei fam. Mwy nag at ddannedd hoelion wyth yr enwad bryd hynny.

Bu'n un o arweinyddion llwyfan amlycaf yr Eisteddfod Genedlaethol am flynyddoedd hir. Hiwmor oedd y pennaf o'i arfau ond un heb iddo na dychan na gwawd. I Huw roedd yna wahaniaeth amlwg rhwng gwiriondeb a digrifwch. Ar derfyn hanner canrif a mwy o gyfeillgarwch clos, gallaf ddweud – yn groes i'w ddymuniaid yn siŵr – ei fod gyda'r puraf o galon.

Un o'r trysorau a adawodd, oedd ymchwil dechnegol ac ysgolheigaidd i eiriau ac ymadroddion byd ffermio. Mae *Cydymaith Byd Amaeth* a gyhoeddwyd yn 1999 – diolch i *Wasg Carreg Gwalch* – yn glasur unigryw.

(parhad ar dudalen 2)

William Salesbury a Thestament Newydd 1567

Mae 2017 yn flwyddyn amlwg ei phenblwyddi Protestannaidd. Yn rhyngwladol cofir Martin Luther a'i "Naw Deg a Phum Pwnc", 500 mlynedd yn ôl. Yma yng Nghymru buom, wrth gwrs, yn dathlu geni Williams Pantycelyn yn 1717. Gellir yn deg ddal, fodd bynnag, mai dau o ddigwyddiadau 1567, bedair canrif a hanner yn ôl i eleni, oedd y dolenni cyswllt anhepgorol rhwng Luther



Yr Athro Ceri Davies

a'r Pêr Ganiedydd, rhwng y cychwyniadau yn yr Almaen a Chymru. Y ddau ddigwyddiad hynny oedd cyhoeddi, ym mis Mai, fersiwn Cymraeg o'r Llyfr Gweddî Gyffredin, a'i ddilyn ym mis

Hydref gan y Testament Newydd Cymraeg. William Salesbury oedd yr arloeswr a fu'n bennaf gyfrifol am lunio'r cyfrolau hyn a'u hwylio drwy'r argraffwasg. Yma ceisir crynhoi ychydig o'i hanes a dirnad peth o'r hyn a'i

Gŵr gyda'r puraf o galon (parhad o dudalen 1)

Gweinidog a bugail eglwys oedd o, o flaen pob dim. Wnaeth yr alwad glywedd o yng ngogledd Môn yn nyddiau'r llofft stabl erioedd ddistewi. Wedi ei ordeinio yn 1949 aeth yn weinidog i'r Drenewydd, symud i Ben-y-groes, Arfon, a gwreiddio yn y Bala a Phenllyn hyd ymddeoliad. A Phenllyn y "pethe" yn ei ffitio fel maneg am law.

Math o ddadlau neges Grist-ganolog oedd ei ddull o bregethu. Wedyn, yn eithafol brysur gyda holl weithgarwch eglwys luosog ac yn fugail tyner i rai oddi mewn i'r gorlan a thu allan iddi. Doedd o ddim yn un i guddio'i oleuni o dan lestr nag i nofio gyda phob llif. O'i ieuencid, bu'n aelod amlwg a huawdl o Blaid Cymru.

Pan oedd Huw yn nawdeg nyddodd Desmond Healy gerdd a'i siarsio:

*On d ati'r cawr, cyn daw iti'r cant
Dwg inni gyfoeth dy hunangofiant.*

Gwrthod sgwennu stori ei fywyd wnaeth o a bodloni ar ei byw hi – i'r eithaf. Yng Nghapel Tegid, bnawn Sadwrn, 16 Medi, bu cyfle i dyrfa ddathlu'r stori unigryw a chydymdeimlo â'i ddisgynyddion, Sioned a Cemlyn a'u teuluoedd, ac â Glyn ac Ella, ei frawd a'i chwaer. Roedd Megan yno, hefyd, yn llond ein meddyliau. Bu colli ei briod yn friw enbyd i Huw. Tu cefn i'r gŵr cyhoeddus roedd yna ŵr swil a dwys na wyddai fawr neb amdano. Fyddai Huw ddim yn dangos ei fawr gampau na'i wir ddoluriau i neb.

symbylodd. Yr wythnos nesaf canolbwyntir ar weithiau 1567.

Dyneiddiwr Cymraeg o Gristion

Heb unrhyw amheuaeth, haedda William Salesbury le yn rheng flaenaf arwyr ein cenedl. Nid gormodiaith yw dweud i'w weledigaeth a'i benderfyniad di-ildio ef, mewn cyfnod argyfyngus i'r Gymraeg wedi Deddf Uno 1536, fod yn gyfryw ag i newid cwrs hanes Cymru. Annelwig, er hynny, ac anghyflawn yw llawer o'r wybodaeth fywgraffyddol sydd ar gael amdano.

Mae'n hysbys mai yn y Cae-du, Llansannan y ganed ef, i gangen o dylwyth uchelwrol y Salbriaidd, cyn cartrefu yn nes ymlaen yn y Plas Isa, Llanrwst. Am ddyddiad ei eni, fodd bynnag, ni ellir ond dweud nad oedd hynny'n ddiweddarach na 1520; ni wyddys pryd yn union y priododd ef a'i wraig Catrin (priodas na fu, yn ôl y sôn, yn gwbl ddedwydd); yr un modd, nid oes sicrwydd am flwyddyn ei farw. Cafodd addysg gynnar – efallai, am gyfnod, yn Swydd Gaerhirfryn – a'i galluogodd i fynd yn fyfyrwr i Rydychen, profiad a fu'n ddylanwad mawr arno, ond amhendant yw'r wybodaeth am flynyddoedd ei arhosiad yno. Ac er iddo dreulio rhai blynyddoedd yn Llundain, ac arddel cysylltiad ag un o'r ysgolion cyfraith, ni ellir bod yn sicr iddo ymarfer fel cyfreithiwr.

Ond, er gwaethaf niwlogrwydd llawer o'r manylion bywgraffyddol am Salesbury, mae disgleirdeb ei gyflawniadau ysgolheigaidd a diwylliannol (yn arbennig ar ddau gyfnod yn ei fywyd) yn syfrdanol lachar. Fe'i gyrrwyd yn ei flaen gan dri dylanwad grymus, a'r cyfuniad rhyngddynt yn creu person o gymwysterau unigryw: (i) dyneiddiaeth y Dadeni Dysg, a'r cymhelliad i aildarganfod ffynonellau clasurol diwylliant Ewrop ac i feistrolïo ieithoedd hen a modern; (ii) argyhoeddiad Protestannaidd, a afaelodd ynddo (siwr o fod) yn Rhydychen a Llundain, a'r pwyslais mai ar awdurdod y Beibl yn unig (*sola Scriptura*) yr oedd ffydd Gristnogol ddilys i'w seilio; (iii) ymwybod byw â'r Gymraeg ac â thraddodiad llenyddol Cymru, diolch yn arbennig i'w gyfeillgarwch â'r bardd Gruffudd Hiraethog. "Mynnwch ddysg yn eich iaith", meddai wrth y Cymry yn 1547, ychydig dros ddegawd yn unig wedi'r Ddeddf Uno a'i "chymal iaith" bondigrybwyll, a dilyn hynny ag anogaeth arall, yr un mor daer, "Mynnwch yr Ysgrhythur Lân yn eich iaith".



William Salesbury
o Wikimedia – awdur Llywelyn2000
a defnyddir drwy drwydded
Creative Commons Attribution-ShareAlike
License

Nid ymatebodd neb yn fwy nobl i'r alwad sydd yn ei eiriau na Salesbury ei hun. At hynny, mewn cyfnod pan ddaliai llawer wrth yr arfer llafurus o gynhyrchu copïau o weithiau llenyddol fesul llawysgrif unigol, gwelodd ef bosibiliadau chwyldroadol defnyddio'r argraffwasg ar gyfer cyhoeddi yn y Gymraeg. Ys gwir mai Syr Siôn Prys, gydag *Yny lhyvyr hwnn* (1546), a fu'n gyfrifol am y llyfr cyntaf i'w brintio yn yr iaith. Ond William Salesbury, yn union ar ôl Prys, oedd y gwir arloeswr a

harneisiodd botensial y ddyfais newydd ar gyfer Cymru. Rhwng 1547 a 1551 cyhoeddwyd ganddo gynifer â saith o lyfrau print, pump ohonynt yn Gymraeg neu'n ymwneud â'r Gymraeg. O'r saith, y mwyaf o ddigon oedd *Kynniver llith a ban* (1551), cyfieithiad o lithoedd yr Efyngylau a'r Epistolau yng Ngwasanaeth y Cymun ar gyfer pob Sul a Gŵyl drwy'r flwyddyn, fel y pennid hwy yn y Llyfr Gweddî Saesneg (1549) a luniwyd gan Thomas Cranmer. Roedd y llyfr hwn, blaenffwrth cynnyrch William Salesbury fel cyfieithydd yr Ysgrhythurau, yn rhagflas o'r crwd mwy toreithiog a oedd i ddod yn 1567.

Ceri Davies, Abertawe
(i'w barhau)

Rhaglen Cymanfaoedd Canu

**Hen Nodiant a Sol-ffa
AR WERTH YN AWR**

£1.40

Ar gael o

bwthyn
GWASG Y BWTHYN

**Lôn Ddewi, Caernarfon, Gwynedd
LL55 1ER. Ffôn: (01286) 672018**